**DATGANIAD I'R WASG**
**Dydd Mercher 2 Mehefin 2010**

# Partneriaeth newydd – Theatr Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd

Mewn partneriaeth flaengar gaiff ei lansio yn sgil cyhoeddi enillydd cystadleuaeth Y Fedal Ddrama o'r llwyfan y prynhawn yma, bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn cydweithio'n swyddogol gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn flynyddol. Bydd y bartneriaeth newydd yn cynnig llwyfan proffesiynol i enillydd Medal Ddrama'r Eisteddfod, wrth iddi hi / iddo ef gael gweithio'n agos gydag actorion a chyfarwyddwr proffesiynol Theatr Genedlaethol Cymru, fel rhan o wobr y Fedal Ddrama.

Yn ychwanegol, bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn paratoi cynyrchiadau drama fydd â chyswllt penodol ag Eisteddfod yr Urdd. Eleni, mae'r Theatr Genedlaethol ar daith gyda drama newydd, 'Dau. Un. Un. Dim' a ysgrifennwyd gan enillydd Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod yr Urdd Dinbych 2006, **Manon Wyn**, sy'n wreiddiol o Landwrog ger Caernarfon. Bydd y perfformiadau yn cael eu cynnal yn lleol i faes yr Eisteddfod, yn Neuadd y Celfyddydau Coleg Prifysgol Cymru Llanbed o nos Iau, 3 o Fehefin hyd nos Sadwrn 6 o Fehefin (tocynnau ar gael o Theatr Felin-fach: 01570 470697). Mae bws wedi ei drefnu i'r Coleg, yn rhad ac am ddim o brif fynedfa maes yr Eisteddfod bob nos am 6:30yh. Bydd y noson hefyd yn cynnwys cynhyrchiad llwyfan cyntaf erioed o ddrama fer Saunders Lewis, 'Yn y Trên'.

Dirgelwch ffuglen wyddonol yw 'Dau. Un. Un. Dim', gan Manon Wyn, wedi'i gosod yn y flwyddyn 2110. Mae'r gymdeithas wedi'i rhannu yn ddwy - y 'pur' a'r 'amhur'. Wrth i'r ddau gymeriad, a chwaraeir gan yr actorion, **Rhodri Meilir** a **Lowri Gwynne**, herio'i gilydd, mae'r sefyllfa'n cymhlethu, a rhaid i'r ddau gwestiynu popeth fu'n sail i'w bodolaeth hyd yma. Cyfarwyddir y ddrama gan yr actores adnabyddus **Betsan Llwyd**, sy'n edrych ymlaen yn arw at y sialens o Gyfarwyddo.

Yn ôl **Elin Angharad Williams**, Rheolwr Marchnata Theatr Genedlaethol Cymru: "Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn hynod o gyffrous i fod yn cydweithio gyda'r Urdd am y tro cyntaf erioed. Mae'n hynod o bwysig i ni fuddsoddi yn nramodwyr y dyfodol a pha le gwell i wneud hynny ond gyda phrif fudiad ieuenctid Cymru. Gobeithiwn yn fawr y bydd y bartneriaeth yma'n blaguro dros y blynyddoedd nesaf a phwy a ŵyr, efallai y gwelwn waith un o enillwyr y dyfodol yn cael ei berfformio ar lwyfannau cenedlaethol rhyw dro."

"Mae hon yn fenter newydd i ni," eglura **Aled Siôn**, Cyfarwyddwr Celfyddydau ac Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru, "ac rydym yn hynod ddiolchgar i Theatr Genedlaethol Cymru am ymuno â ni i gynnig y cyfle i aelodau'r Urdd i weithio â phobl broffesiynol. Mi fydd yn sicr o agor drysau i'r enillwyr, a chynnig agoriad llygaid iddynt wrth weithio â chwmni theatr teithiol

blaengar. Credaf mai dyma ddechrau'r daith i'n henillwyr, a bydd yn brofiad amhrisiadwy iddynt. Hyderaf wrth i ni gydweithio y gallwn feithrin a magu talent ieuenctid Cymru."

**Diwedd**

**Manylion pellach:** Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

**PRESS RELEASE**
**Wednesday 2 June 2010**

# New partnership launched – Theatr Genedlaethol Cymru and Eisteddfod yr Urdd

In an innovative partnership launched today to coincide with the Drama Medal competition announced later today on the main pavilion stage, Theatr Genedlaethol Cymru (the Welsh language National Theatre Company) will officially work with the Urdd National Eisteddfod on an annual basis. The new partnership will offer a professional platform to the winner of the Drama Medal at the Eisteddfod, as he or she will be given exclusive access to Theatr Genedlaethol Cymru's actors and director, as part of the Drama Medal prize.

In addition, Theatr Genedlaethol Cymru will also work on drama productions linked to the Urdd Eisteddfod, which this year, includes touring a new play, 'Dau. Un. Un. Dim' by the Literary Medal winner at the Urdd National Eisteddfod at Denbigh in 2006, **Manon Wyn** from Llandwrog near Caernarfon. Performances will be staged locally to the Eisteddfod festival site, the Maes, at the Arts Centre, University of Wales Lampeter from Thursday, 3 June to Saturday 6 June (tickets available from Theatr Felin-fach: 01570 470697). A free bus has been arranged from the main entrance of the Maes each evening at 6:30pm to the venue. The performances will also include a staged production of Saunders Lewis' short play, 'Yn y Trên', seen for the very first time.

'Dau. Un. Un. Dim', by Manon Wyn is a science fiction mystery set in 2110. Society is divided in two – the 'pure' and the 'impure'. While the two characters played by **Rhodri Meilir** and **Lowri Gwynne** challenge each other, the situation worsens and they start questioning everything that has been their reason for living. Directed by experienced actress **Betsan Llwyd**, she is very excited to be taking on her new role as director.

**Elin Angharad Williams**, Marketing Manager of Theatr Genedlaethol Cymru said: “Theatr Genedlaethol Cymru is thrilled to be working hand in hand with the Urdd for the first time. It is imperative that we invest in future playwrights, and where better to reach those youngsters than with Wales’ leading youth movement. We sincerely hope the partnership blossoms during the next few years, and who knows, we may even see a Drama Medal winner’s work performed on our national stages in the future.”

“This is an exciting new venture for us,” explains **Aled Siôn**, Director of Urdd Gobaith Cymru’s Arts and Eisteddfod, “and we are very grateful to Theatr Genedlaethol Cymru for joining us in offering Urdd members the opportunity to work with professional people. It will, no doubt, open doors to our winners, and offers a real insight into Wales’ most prominent touring theatre company. I believe that this will be the beginning of the journey for our youngsters, and will be an invaluable experience, as together, we nourish and nurture young Welsh talent.”

**Ends**

**Further information:** Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.